Cyllideb 2000

Darbodus er Diben:

Gweithio dros Brydain Gryfach a Thecach

Trysorlys EM Mawrth 2000

Cyllideb 2000

Darbodus er Diben:

Gweithio dros Brydain Gryfach a Thecach

Ymhlith mesurau allweddol y Gyllideb mae:

- y cynnydd parhaus mwyaf erioed yn adnoddau'r NHS;
- gwariant ychwanegol yn y flwyddyn sydd i ddod o £1 biliwn ar gyfer addysg; a £285 miliwn ychwanegol i fynd i'r afael â throseddau a £280 miliwn i wella trafnidiaeth;
- cynnydd o £4.35 yr wythnos i blant o dan 16 oed yn y Credyd Treth i Deuluoedd sy'n Gweithio a chynnydd o 50c yr wythnos y flwyddyn nesaf yn y Credyd Treth i Blant;
- cynnydd pellach yn y taliad tanwydd gaeaf i bensiynwyr i £150 y flwyddyn;
- cynnydd o ran trethi tanwydd ffordd a'r rhan fwyaf o drethi alcohol yn unol â chwyddiant a chynnydd o 5% mewn termau real mewn trethi tybaco i helpu i ariannu'r NHS; ac
- ehangu cyfradd ostyngol treth cerbydau i gynnwys ceir hyd at 1,200cc – a hynny o fudd i 2.2 miliwn o berchenogion ceir ychwanegol.

Sut mae'r Gyllideb yn effeithio arnoch chi a'ch teulu...

Erbyn mis Ebrill 2001, bydd newidiadau o ran trethi a budd-daliadau personol yn y Gyllideb hon a Chyllidebau blaenorol yn golygu:

- ar gyfartaledd, bydd cartrefi £460 y flwyddyn yn well eu byd;
- bydd teuluoedd â phlant £850 y flwyddyn yn well eu byd; a
- bydd y baich treth ar deulu un enillydd cyflog ar enillion cyffredin â 2 o blant ar ei isaf ers 1972.

Moderneiddio gwasanaethau cyhoeddus...

Mae Cyllideb 2000 yn cyhoeddi adnoddau ychwanegol pellach i flaenoriaethau allweddol y Llywodraeth.

Ar gyfer iechyd:

- **£2 biliwn ychwanegol i'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol** ar gyfer y flwyddyn o fis Ebrill, gan gynnwys refeniw ychwanegol o'r cynnydd mewn trethi tybaco;

- twf blynyddol o 6.1% ar gyfartaledd mewn termau real dros y pedair blynedd nesaf – y cyfnod hwyaf o dwf uchel parhaus yn hanes yr NHS;

- cynnydd arian parod o 50% yng ngwariant yr NHS dros y 5 mlynedd o ddechrau'r Arolwg Gwariant Cynhwysfawr cyntaf – 35% mewn termau real – sy'n gyfwerth â chynnydd mewn gwariant arian parod ar yr NHS fesul cartref o £1,850 ym 1998-99 i £2,800 yn 2003-04.

Nodir y dyraniadau newydd ar gyfer yr NHS yn y DG isod.

Gwariant yr NHS yn y DG, arian parod (£ biliwn)

	1998-99	1999-00	2000-01	2001-02	2002-03	2003-04	Cyfartaledd
Cynllun blaenorol	*45.1*	49.3	52.2	55.5			
Darpariaeth newydd	*45.1*	49.3	54.2	58.6	63.5	68.7	
Twf real flwyddyn ar flwyddyn (%)			7.4%	5.6%	5.6%	5.6%	6.1%

Noder: mae'r ffigurau hyn yn cynnwys ychwanegiadau i'r gweinyddiaethau datganoledig ac adrannau Gogledd Iwerddon.

Ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus allweddol eraill:

- **£1 biliwn pellach ar gyfer addysg**, gan ddarparu mwy o arian i ysgolion a helpu pobl ifanc i aros yn yr ysgol; a

- £280 miliwn ychwanegol ar gyfer **trafnidiaeth** a £285 miliwn ychwanegol i fynd i'r afael â **throseddau**.

Adeiladu cymdeithas decach...

Mae Cyllideb 2000 yn cymryd camau pellach i gynorthwyo teuluoedd a phensiynwyr, sicrhau system dreth deg a diogelu'r amgylchedd:

- £4.35 yr wythnos yn ychwanegol ar gyfer y credyd plant o dan 16 oed yn y **Credyd Treth i Deuluoedd sy'n Gweithio** o fis Mehefin (ac ar gyfer elfen lwfans plant Cymhorthdal Incwm o fis Hydref) a 50c yr wythnos yn ychwanegol ar y **Credyd Treth i Blant** pan gaiff ei gyflwyno ym mis Ebrill 2001. Bydd gwerth y Credyd Treth i Blant yn fwy na dwywaith y lwfans pâr priod (a gaiff ei ddiddymu o fis Ebrill 2000) y mae'n ei ddisodli.

- cynnydd o £100 yn y Grant Mamolaeth Cychwyn Cadarn i £300 o'r hydref;

- o ganlyniad i'r mesurau a gyhoeddwyd yn ystod y Senedd hon, caiff 1.2 miliwn o blant eu tynnu o dlodi;

- cymorth i **bensiynwyr** gan gynnwys cynnydd pellach yn y taliad tanwydd gaeaf o £100 i £150 i bob cartref â rhywun dros 60 oed;

- hwb i **gynilion**, gyda'r terfyn cyfraniad Cyfrif Cynilion Unigol (ISA) cyfredol o £7,000 yn cael ei gadw ar gyfer 2000-01;

- cynnydd real o 5% mewn **treth tybaco**, gyda'r refeniw ychwanegol a godir yn cael ei fuddsoddi yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol;

- rhewi'r **dreth gwirodydd**, tra'n cynyddu **trethi alcohol** eraill yn unol â chwyddiant; a

- diogelu'r **amgylchedd** drwy ddiwygiadau i'r **dreth cerbyd** gan gynnwys ehangu'r gyfradd ostyngol i geir ag injan hyd at 1,200cc o fis Mawrth 2001 – a hynny o fudd i 2.2 miliwn yn fwy o geir; cynnydd mewn **trethi tanwydd ffordd** yn unol â chwyddiant; diwygiadau i **dreth ceir cwmni** i annog y defnydd o gerbydau a thanwyddau sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd; a chynnydd mewn **treth tirlenwi** i hyrwyddo gwell rheoli gwastraff; ac ardoll newydd ar echdynnu **agregiadau** o 2002.

Cynyddu cyfleoedd cyflogaeth a gwneud i waith dalu...

Mae'r Llywodraeth yn cyflwyno set cynhwysfawr o fesurau a diwygiadau i sicrhau y rhoddir y cyfle i bawb sy'n gallu gweithio i wneud hynny.

Mae 800,000 yn fwy o bobl mewn swyddi nag yr oedd yng Ngwanwyn 1997. Mae Bargen Newydd y Llywodraeth eisoes wedi helpu dros 185,000 o bobl ifanc i ddod o hyd i swyddi. Hanerwyd diweithdra hir dymor, a gostyngwyd diweithdra ymhlith ieuenctid 70%.



Gan adeiladu ar y camau a gyhoeddwyd eisoes, gan gynnwys gostyngiad yng nghyfradd sylfaenol treth incwm i 22c o fis Ebrill, diwygio cyfraniadau yswiriant gwladol, gan gynnwys terfynau enillion uwch, a chynnydd yn yr lsafswm Cyflog Cenedlaethol o fis Hydref, bydd Cyllideb 2000 yn:

- cynyddu'r Credyd Treth i Deuluoedd sy'n Gweithio, **gan warantu isafswm incwm o £214 yr wythnos** o fis Ebrill 2001 i deuluoedd sy'n gweithio ag enillydd cyflog llawn amser;
- sicrhau o fis Ebrill 2001 **na fydd unrhyw deulu sy'n ennill llai na £255 yr wythnos yn talu unrhyw dreth incwm yn gyffredinol**;
- cyflwyno **Grant Swyddi** newydd o wanwyn 2001 i hwyluso'r broses o drawsnewid o fudd-dâl i waith;
- creu **Timau Gweithredu** o hydref 2000 i helpu i gyfateb pobl ddi-waith yn yr ardaloedd o ddiweithdra uchaf â swyddi gwag addas mewn ardaloedd cyfagos;
- ehangu a gwella **rhaglenni'r Fargen Newydd** ar gyfer pobl 18-24 oed a 25+ oed; a
- cynnig gwell dewisiadau i rieni unigol o ran gwaith, addysg a hyfforddiant. Bydd pob rhiant unigol ar Gymhorthdal Incwm â phlant dros 5 oed yn cwrdd ag ymgynghorydd arbenigol i'w tywys drwy'r dewisiadau hyn.

Cyflwyno economi sefydlog...

Dros y tair blynedd diwethaf bu'r Llywodraeth yn gweithio i gyflwyno economi sefydlog. Mae ei hymrwymiad i ddarbodusrwydd a sefydlogrwydd wedi dod â chwyddiant isel yn ei sgîl ac wedi dychwelyd arian cyhoeddus i iechyd, gan sicrhau na ddychwelir i ffyniant a dirywiad y gorffennol.

Mae diben i'r darbodusrwydd hwn. Mae'n golygu y gall y Gyllideb sicrhau yr erys arian cyhoeddus o dan reolaeth gadarn tra'n rhyddhau adnoddau newydd sylweddol ar gyfer iechyd ac addysg:

- disgwylir i **chwyddiant sylfaenol** barhau'n agos i'w darged o 2½%;
- mae **twf economaidd** cryfach wedi lledaenu i'r rhan fwyaf o ranbarthau a sectorau o'r economi dros y flwyddyn ddiwethaf. Bydd diddymu rhyddhad treth llog morgais o fis Ebrill 2000, a'r cynnydd yn y Gyllideb mewn treth stamp ar gyfer eiddo gwerth uwch yn helpu i hyrwyddo sefydlogrwydd yn y farchnad dai;
- bellach mae mwy o bobl mewn gwaith nag erioed o'r blaen – cynnydd o 800,000 ers mis Mai 1997. Mae diweithdra ar ei isaf ers 20 mlynedd; ac
- mae **arian cyhoeddus ar y trywydd cywir i fodloni rheolau ariannol caeth y Llywodraeth** i reoli benthyg tra'n rhyddhau adnoddau newydd sylweddol ar yr un pryd ar gyfer iechyd ac addysg.

Crynodeb o'r Rhagolygon Economaidd

	Rhagolwg			
	1999	**2000**	**2001**	**2002**
Twf economaidd (%)	**2**	**2¾ i 3¼**	**2¼ i 2¾**	**2¼ i 2¾**
Chwyddiant sylfaenol (%)	**2¼**	**2¼**	**2½**	**2½**

Adeiladu busnesau Prydeinig cryfach...

Nid yw cynhyrchiant Prydain cystal â'i phrif gystadleuwyr – dengys ein cynnyrch fesul gweithiwr fwlch o hyd at draean o'i gymharu â gwledydd fel yr Unol Daleithiau, Ffrainc a'r Almaen. Bydd cau'r bwlch hwn a chodi twf cynhyrchiant Prydain yn golygu mwy o swyddi a safonau byw uwch yn y dyfodol.

Y bwlch cynhyrchiant



Ffynhonnell: OECD

Mae Cyllideb 2000 yn cyhoeddi mesurau pellach i hybu cynhyrchiant:

- gostyngiadau mewn **treth enillion cyfalaf** i entrepreneuriaid a chyfranddalwyr sy'n gyflogeion;

- **lwfansau cyfalaf 40%** parhaol i annog buddsoddiad gan gwmnïau bach a chanolig eu maint, a chyflwyno **lwfansau cyfalaf 100%** gwell i gwmnïau bach sy'n prynu offer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu;

- camau pellach i hyrwyddo **masnach electronig** gan gynnwys pecyn gwerth £60 miliwn i ddarparu cyngor a gwybodaeth i gwmnïau bach ar-lein, eu helpu i fynd ar-lein, a disgowntiau newydd ar gyfer ffeilio ffurflenni treth mewn ffordd electronig;

- manylion terfynol am y **cynllun perchenogaeth cyfranddaliadau i bob cyflogai** newydd i'w gyflwyno ym mis Ebrill i annog cyflogeion i fentro yn llwyddiant eu cwmnïau; a

- **cronfa ymbarél** newydd â tharged o £1 biliwn ar gyfer **twf menter** i gynyddu mynediad cynnar i gyfalaf menter i ddarpar fusnesau twf bach ar draws pob rhanbarth o'r DG.

Lle caiff arian y trethdalwr ei wario...

Disgwylir i wariant cyhoeddus fod tua £370 biliwn y flwyddyn nesaf: tua £6,000 ar gyfer pob dyn, merch a phlentyn yn y DG.

Lle caiff arian y trethdalwr ei wario



Noder: Ffigurau cyfanswm gwariant wedi'i reoli 2000-2001, yn dilyn Cyllideb 2000. Ffynhonnell: Trysorlys EM

O ble y daw trethi



Noder: Ffigurau 2000-2001, yn dilyn Cyllideb 2000. Ffynhonnell: Trysorlys EM.

Er mwyn archebu copïau pellach o'r dafilen hon, neu gael fersiwn ar fformat arall, ffoniwch:

0845 601 1041

Am fwy o fanylion ar y Gyllideb, ymwelwch â safle'r Trysorlys ar y rhyngrwyd yn http://www.hm-treasury.gov.uk